# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 15 RHAGFYR 2021<br>am 2.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 15 DECEMBER 2021<br>at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHWIR<br>WEDI EI FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED<br>MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514 | Committee Officer |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor J Arwel Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Keith Roberts
Mr Iorwerth Roberts

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd a ganlyn:

• Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021
• Cofnodion y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021 – I'w cadarnhau gan y tri Aelod o'r Panel yn unig.

**3** **DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU**

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnodau Dynol ar ddatblygu Aelodau.

**4** **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU** (Tudalennau 15 - 16)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i roi diweddariad ar faterion amrywiol yn ymwneud â'r Aelodau.

**5** **CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 17 - 22)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref/Cymuned ar gyfer Chwarter 2 2021/2022.

**6** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 23 - 30)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 16 Mehefin 2021.

**7** **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 31 - 36)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau.

**8** **DOSBARTHU CANFYDDIADAU CYFFREDINOL ADRODDIAD YR ADOLYGIAD O'R GOFRESTR DIDDORDEBAU MEWN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 37 - 42)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â chanfyddiadau cyffredinol yr adroddiad a ddosbarthwyd i bob Cyngor Tref a Chymuned.

**9** **ADRAN 62-63 DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021** (Tudalennau 43 - 44)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sy'n nodi goblygiadau'r dyletswyddau a Chyfrifoldebau newydd o dan y ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor Safonau.

**10** **FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL** (Tudalennau 45 - 54)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y Fframwaith Safonau Moesegol yn dilyn yr Adroddiad gan Richard Penn a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2021. Y Pwyllgor Safonau i ystyried y camau y maent yn dymuno'u cymryd yn sgil y canfyddiadau a'r argymhellion yn yr Adroddiad.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Sharon Warnes<br><br>**Yn Cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br><br>**Yn Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **PRESENNOL:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 4)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Datblygu AD dan hyfforddiant (CD) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs Celyn Menai Edwards (Aelod Annibynnol)<br>Mrs Gill Murgatroyd (Aelod Annibynnol)<br>Y Cynghorydd Iorwerth Roberts (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Adroddodd bod Mrs Celyn Edwards a Mr Iorwerth Roberts yn absennol heddiw oherwydd salwch, a dymunodd wellhad buan iddynt.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020 yn gywir.

Diweddarwyd y cofnod o’r materion a godwyd gyda manylion y camau gweithredu a gwblhawyd yn unol â chofnodion y cyfarfod diwethaf ac anfonwyd copi i aelodau’r Pwyllgor Safonau.  Cyfeiriwyd at eitem 3 yn y cofnodion – Datblygu Aelodau – a holwyd ynglŷn â chais y Swyddog Monitro ar gyfer hyfforddiant rheoli risg ar gyfer yr Aelodau. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod wedi cael ymateb gan yr Adran Gyllid ar 18 Chwefror 2020, a’i bod wedi rhannu’r ymateb gyda’r Pwyllgor Safonau.

Bydd y cofnod yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y cyfarfod heddiw.

## 3. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y cyfleoedd datblygu i aelodau Etholedig yn ystod 2021/22.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD mai cyfyngedig fu’r cyfleodd hyfforddi dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y pandemig, a bod yr Aelodau wedi derbyn hyfforddiant drwy sesiynau E-Ddysgu a sesiynau briffio.

Nodwyd bod trafodaethau wedi’u cynnal gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth ac Arweinyddion Grŵp ynglŷn ag anghenion hyfforddi’r Aelodau, a chyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 16 Mawrth 2021. Canolbwyntir ar yr hyfforddiant canlynol yn ystod 2021/22:-

- Hyfforddiant mandadol
- Hyfforddiant iPad
- Hyfforddiant Deddfwriaethol
- Sesiynau Briffio

Adroddodd y Rheolwr AD ei bod hi’n debygol y bydd y sesiynau hyfforddi / briffio yn parhau i gael eu cynnal dros MS Teams, Zoom, a phlatfform E-Ddysgu’r Awdurdod, y Porth Dysgu, sy’n cael ei ddiweddaru’n rheolaidd. Dywedodd bod cymorth mewn perthynas â chael mynediad at hyfforddiant ar-lein / materion TGCh cyffredinol yn dal i fod ar gael i Aelodau drwy’r Tîm Hyfforddi. Mae nodiadau canllaw a fideos hefyd ar gael gan y Tîm i gynorthwyo gyda materion yn ymwneud â mynediad.

Adroddodd y Rheolwr AD bod Llywodraeth Cymru’n ystyried disodli platfform y GIG, a fabwysiadwyd gan y Cyngor, â phlatfform E-Ddysgu cenedlaethol ledled Cymru. Os caiff y newidiadau eu gweithredu, mae’n bosib y caiff modiwlau’r GIG eu trosglwyddo o blatfform y GIG i’r Porth Dysgu cenedlaethol, gan ddarparu dewis ehangach o fodiwlau hyfforddi i Aelodau etholedig.

Gofynnwyd am eglurder ar yr hyfforddiant mandadol i Aelodau’r Pwyllgor Safonau. Ymatebodd y Swyddog Monitro bod yr hyfforddiant ar y Cod Ymarfer yn fandadol i’r holl Aelodau, a’i fod wedi’i gynnwys yn y Cod.

Holwyd a oedd hyfforddiant ar gael i Aelodau ar gyllideb y Cyngor? Ymatebodd y Swyddog Monitro y bydd Aelodau newydd yn cael cynnig hyfforddiant ar y modd y mae'r Cyngor yn cael ei ariannu fel rhan o'u hyfforddiant cynefino. Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD bod Aelodau'n cael trosolwg o waith a blaenoriaethau'r Cyngor gan uwch Reolwyr y Cyngor, a bod hyn wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y ddarpariaeth hyfforddiant i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn y dyfodol. Ymatebodd y Swyddog Monitro bod Un Llais Cymru wedi darparu hyfforddiant yn y gorffennol a'u bod yn arbenigo yn y maes. Dywedodd y bydd sesiynau hyfforddi'n cael eu cynnig i aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2022 fel rhan o ddyletswydd statudol y Pwyllgor Safonau. Cadarnhawyd mai Un Llais Cymru fyddai'n darparu'r hyfforddiant.

Mae hyfforddiant Cod Ymarfer wedi'i drefnu ar gyfer y ddau Aelod Etholedig newydd o'r Cyngor Sir (yn dilyn yr isetholiad ym Mai 2021). Darperir y rhain gan y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn ystod yr wythnosau nesaf.

O ran paratoi tuag at y Cyngor newydd, adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y gallai Aelodau newydd gael eu hethol, ynghyd â phum Aelod ychwanegol (gan y bydd gan y Cyngor bum sedd ychwanegol wedi Mai 2022). Dywedodd y bydd cyfuniad o sesiynau briffio'n cael eu trefnu ar hyfforddiant penodol, dan arweiniad yr Uwch Swyddogion. Bydd y Rhaglen Datblygu Aelodau'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth a chymorth i'r Aelodau yn dilyn yr etholiad. Cadarnhawyd y bydd copi o'r rhaglen ddrafft ar gael i aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn ei gadarnhau'n derfynol.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Ddatblygu i Aelodau Etholedig a'r ddarpariaeth gysylltiedig ar gyfer 2021/22, fel y manylir yn yr adroddiad, a bod copi'n cael ei rhannu â'r Pwyllgor Safonau.**

**Gweithredu: Dim**

## 4. MATERION YN YMWNEUD AG AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar faterion amrywiol yn ymwneud ag Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y Cadeirydd wedi briffio'r Arweinwyr Grŵp ar y trefniadau ar gyfer 2021/22, ac amlygodd bwysigrwydd annog Aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol. Gofynnir i Aelodau Etholedig gyflwyno eu hadroddiadau erbyn 12 Mai 2021, i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn diwedd mis Mehefin 2021. Nodwyd bod 13 Adroddiad Blynyddol drafft wedi'u derbyn hyd yma.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod CLlLC wrthi'n diweddaru'r disgrifiadau swydd ar gyfer yr Aelodau, a fydd yn cael eu haddasu'n lleol a'u rhoi i'r Aelodau wedi iddynt gael eu hethol. Mae'r disgrifiadau wedi eu

cynllunio i gael eu defnyddio ar y cyd â'r Fframwaith Datblygu Aelodau (Cymhwysedd), a gyhoeddwyd yn Ebrill 2021, ac sydd ar gael ar wefan CLlLC.

Adroddodd y Swyddog Monitro y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion a Swyddogion Monitro Pwyllgorau Safoanu yn cael ei gynnal fis nesaf i adolygu'r Cod Ymddygiad. Dywedodd bod gwybodaeth yn cael i rannu'n rheolaidd rhwng Swyddogion Monitro am y modd y mae pob Pwyllgor Safonau wedi addasu'r Cod Ymddygiad yn lleol. Nodwyd efallai y bydd yn bosibl i'r Pwyllgor Safonau hwn ofyn am i Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ddod yn ofyniad statudol o dan y Cod

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**

**Gweithredu: Dim**

## 5. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro am y cwynion a anfonwyd at yr Ombwdsmon yn erbyn (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

Adroddodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir wedi eu cyflwyno i'r Ombwdsmon rhwng Hydref – Rhagfyr 2020 (Chwarter 3), ac Ionawr – Mawrth 2021 (Chwarter 4).

Nodwyd bod un gŵyn yn erbyn Cynghorydd Tref wedi'i chyflwyno i'r Ombwdsmon yn ystod yr un cyfnod o chwe mis. Mae'r Ombwdsmon wedi ystyried y gŵyn, a phenderfynu peidio ymchwilio ymhellach i'r gŵyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1-4.**
- **Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn rhannu Atodiadau 1-4 ag aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor, ac aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned fewn y Newyddlenni.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 6. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am gwynion Cod Ymddygiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Ionawr - Rhagfyr 2020.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod 13 o achosion wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon am benderfyniad yn ystod 2020, fel y nodir yn y Coflyfr (Rhif 24) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021**.**

Amlygwyd y prif bwyntiau dysgu ar gyfer Aelodau etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned:-

- Gall dangos edifeirwch gynorthwyo aelodau sydd wedi torri'r Cod Ymddygiad ond efallai na fydd yn ddigon bob amser i'r Ombwdsmon ystyried nad oes angen cymryd camau pellach.
- Mae pob Aelod unigol yn gyfrifol am gwblhau hyfforddiant, neu geisio cyngor y Swyddog Monitro mewn perthynas â datgan buddiant personol / rhagfarnllyd.
- Gellir ystyried bod ymwneud y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddatrys anghydfod yn ddigonol i'r Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i ymhellach.
- Gall Aelodau etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned gyfeirio achosion o dorri'r Cod i'w hystyried gan yr Ombwdsmon.

Rhennir diweddariad mewn perthynas ag achosion rhif 11 a 12 â'r Pwyllgor maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**

**Gweithredu: Dim**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) mewn perthynas â dau benderfyniad a waned ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod ddiwethaf ar 15 Rhagfyr 2020.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) at yr achos cyntaf honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gan gyn-Gynghorydd Cymuned yng Nghyngor Cymuned Sili a Larnog, a oedd yn ymwneud â Chynghorydd yn postio tair neges yn gyhoeddus ar Facebook, a oedd yn cynnwys rhegfeydd a barn gref am dri gwleidydd proffil uchel yn y DU.

Yn ystod ymchwiliad yr Ombwdsmon, gwnaed cyhuddiad pellach yn erbyn y Cynghorydd, sef ei fod wedi gwrthod cydymffurfio â chais yr Ombwdsmon am wybodaeth a thystiolaeth bellach ynglŷn â'r achos.

Daeth Tribiwnlys yr Achos i'r casgliad er bod y Cynghorydd wedi gweithredu fel unigolyn wrth bostio'r negeseuon ar Facebook, barnwyd bod cynnwys y negeseuon tu hwnt i fynegiant gwleidyddol a bod yr Aelod wedi gweithredu'n anghyfrifol. Oherwydd difrifoldeb yr honiadau fe'i cosbwyd drwy waharddiad o 15 mis.

Fe wnaeth y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) atgoffa'r Pwyllgor ei bod hi'n arfer da dilyn Canllawiau CLILC ar gyfer Aelodau ar ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol, sydd eisoes wedi'u rhannu â'r Pwyllgor Safonau, ac mae dolen wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.  Fe wnaeth hefyd atgoffa'r Pwyllgor o'r Canllawiau PDC a ddefnyddir wrth ystyried sancsiynau.

Roedd yr ail achos yn cyfeirio at chwe honiad yn erbyn Cynghorydd Sir o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a oedd wedi torri'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â buddiant personol a rhagfarnllyd yn ymwneud ag eiddo cyfagos (drws nesaf i'w gyfeiriad cartref), a pheidio â dangos parch at y cyn Brif Weithredwr yn ystod cyfarfod. Cafodd y Cynghorydd ei wahardd am saith mis gan Banel Dyfarnu Cymru.

Fe wnaeth y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) atgoffa'r Pwyllgor y bydd mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymarfer yn cynorthwyo Aelodau i wella eu dealltwriaeth o ddarpariaethau'r Cod, ac y byddai hefyd yn gweithredu fel ffactor lliniarol cyn y Panel Dyfarnu.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y crynodeb.**

**Gweithredu: Dim**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd adroddiad, ond nodwyd nad oedd dim ceisiadau am ganiatâd arbennig wedi'u derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU GAN Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a oedd yn cynnwys manylion prif gyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod 2020/21 a'r blaen raglen waith ar gyfer 2021/2022.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod gofyniad statudol ar y Pwyllgor Safonau, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor; a bod hyn yn dod yn weithredol ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor eisoes yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, a chyflwynwyd yr adroddiad cyfredol gan y Cadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2021, a chafodd ei dderbyn.

Cynigodd y Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau'n adolygu strwythur a fformat yr adroddiad blynyddol maes o law, a chytunodd y Pwyllgor.

Mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol yn y dyfodol, gofynnwyd bod y Pwyllgor Safonau'n adolygu fersiwn drafft cyn ei gwblhau.  Ymatebodd y Swyddog Monitro y byddai'n hapus i dderbyn unrhyw adborth gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau, ond mai'r Cadeirydd sydd berchen yr adroddiad. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried cyfraniad y Pwyllgor i unrhyw adroddiadau yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad.**
- **Adolygu strwythur Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau cyn paratoi'r Adroddiad nesaf.**
- **Cynnal cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i adolygu copi drafft o**
- **Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod.**

**10. ADRODDIAD YN DILYN ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr arolwg i Gofrestrau Diddordebau Aelodau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, i sicrhau cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, wedi cytuno mai'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fyddai'n penderfynu pa bum Cyngor Tref a Chymuned i'w hadolygu. Cysylltwyd â Chlercod dros y ffôn yn y lle cyntaf, ac yna anfonwyd llythyr eglurhad at Glerc a Chadeirydd y pum Cyngor a ddewiswyd.

Cadarnhawyd bod yr adolygiadau wedi cael eu cynnal rhwng mis Mawrth a Mai 2021 gan ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau, a bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) hefyd wedi bod yn bresennol.

Cafwyd adborth positif gan yr aelodau a gymerodd ran yn y broses adolygu. Teimlwyd hefyd bod Clercod Cynghorau Tref a Chymuned yn awyddus i symud ymlaen ac addasu i'r newidiadau diweddar oherwydd y pandemig, a'u bod nawr yn cynnal cyfarfodydd dros Zoom. Dywedodd ambell Glerc y byddent yn croesawu "grŵp cefnogi cymheiriaid" i rannu syniadau ac arfer da, a chafodd y neges hon ei hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Safonau.

Mynegwyd yr un peth gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau, a'r rhan fwyaf o'r Clercod a Chadeiryddion a oedd yn rhan o'r adolygiadau – sef eu bod o'r farn bod y profiad wedi bod yn fuddiol. Diolchodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor Safonau i'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) am ei phroffesiynolrwydd a'i chefnogaeth yn ystod y broses adolygu. Diolchwyd hefyd i Glercod y Cynghorwyr Tref a Chymuned am eu cydweithrediad a'u cyfraniad rhagorol yn ystod yr adolygiadau.

Nodwyd y bydd llythyr personol yn cael ei anfon at bob Cyngor a oedd yn rhan o'r adolygiadau, i nodi'r canfyddiadau a darparu cyngor penodol i bob Cyngor. Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cyhoeddi'r llythyrau hyn.

Rhennir newyddlen gyda'r canfyddiadau a phwyntiau dysgu cyffredinol a nodwyd yn ystod y broses adolygu â Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned (mae Adroddiad drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 o'r  adroddiad hwn), gyda chais ei fod yn cael ei rannu ag aelodau, a'i gynnwys fel eitem ar yr agenda yn ystod eu cyfarfod nesaf. Ni enwir yr un Cyngor yn yr adroddiad cyffredinol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad yn Atodiad 1.**
- **Cadarnhau y caiff yr adroddiad cyffredinol yn Atodiad 1, gyda diwygiadau i'r adran "Fforwm Clercod", ei anfon at bob Cyngor Tref a Chymuned, o dan lythyr esboniadol a gynhwysir fel Atodiad 2, gyda chais i drafod yr adroddiad mewn cyfarfod o'r Cynghorau Tref / Cymuned, ynghyd ag anfon copi o'r Cofnodion ymlaen at y Pwyllgor Safonau; a**
- **Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau gyda manylion yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

**11. COD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG AR GYFER AELODAU (A) CYNGHORAU SIR A (B) CYNGHORAU TREF A CHYMUNED A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar yr uchod.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod yn anffurfiol ar 10 Mawrth 2021 i drafod ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer (a) Aelodau etholedig o'r Cynghorau Cymuned a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned. Lluniodd y Pwyllgor ymateb a gafodd ei gyflwyno i a'i derbyn gan yr Arweinwyr Grŵp ar 18 Mawrth 2021. Anfonwyd llythyr ymateb ffurfiol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cyn y dyddiad cau ar 21 Mawrth 2021.

Nodwyd bod y Canllaw terfynol wedi'i gyhoeddi ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac mai dim ond ychydig iawn o newidiadau sydd wedi'u gwneud i gynnwys y Canllawiau ar y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned.

Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn nad oedd eu cyfraniad hwy i'r ymgynghoriad, na'r 22 Pwyllgor Safonau arall, wedi'i ystyried yn llawn gan Swyddfa'r Ombwdsmon oherwydd y cyfyngiadau amser.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno y dylid tynnu sylw'r Aelodau etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned  at y Canllawiau newydd yn y Newyddlen; a**

- **Bod y Nodyn Briffio sy'n cael ei baratoi gan y Pwyllgor Safonau ar ddiddordebau personol a rhai sy'n rhagfarnu yn cael ei ddiweddar i gynnwys y Canllawiau newydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniadau uchod**

**12. YMATEBION GAN Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNGHYLCH NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned i'r Newyddlen a anfonwyd ym mis Mawrth 2021.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, wedi cytuno i rannu gwybodaeth yn dilyn pob cyfarfod ffurfiol o hyn allan drwy anfon Newyddlen at (a) Aelodau etholedig a (b) Cynghorau Tref a Chymuned.

Anfonwyd y Newyddlen i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 4 Mawrth 2021. Yn yr ohebiaeth honno, gofynnwyd i'r Clercod gynnwys y Newyddlen yng nghyfarfod nesaf y Cyngor (mae copi o'r llythyr a anfonwyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn yr adroddiad). Yna dylid anfon copi o Raglen / Cofnodion fyddai'n cadarnhau fod y Newyddlen wedi ei thrafod. Nodwyd (yn unol ag Atodiad 2 yn yr adroddiad) bod ymateb wedi'i dderbyn gan 9 o'r deugain Cyngor Tref a Chymuned hyd yma.

Awgrymwyd y dylid atgoffa'r Cynghorau Tref a Chymuned sydd heb ymateb i gais y Pwyllgor Safonau, gan bwysleisio bod y Pwyllgor yn awyddus i gynnig cefnogaeth. Cytunwyd y dylid cynnwys yr wybodaeth yma yn y Newyddlen nesaf, yn dilyn y cyfarfod heddiw.

Awgrymodd y Swyddog Monitro, a derbyniwyd y cynnig, bod y Pwyllgor Safonau, wedi'r etholiadau'r flwyddyn nesaf, yn adolygu sampl o Gynghorau Tref a Chymuned sydd heb ymateb i'r cais am adborth ar yr adolygiad eleni. Rhoddir rhybudd ymlaen llaw ar y broses adolygu, a bod methiant i ymateb i gais y Pwyllgor Safonau'n rhan o'r rheswm pam bod y Cynghorau yn / wedi cael eu dewis.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn yr adroddiad mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned; ac**
- **Adolygu sampl o Gynghorau Tref a Chymuned sydd heb ymateb i'r cais yn dilyn yr etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned yn 2022.**
- **Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn trefnu bod yr adborth a dderbyniwyd gan y naw Cyngor Tref a Chymuned ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Gill Murgatroyd |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod rhithwir o'r Panel Caniatâd Arbennig.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyriwyd a **PHENDERFYNWYD o dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno, a'r Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**3. YSTYRIED CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod saith Aelod o'r Pwyllgor Gwaith wedi cyflwyno cais ar y cyd i oresgyn diddordeb personol mewn perthynas â "Strategaeth Ddigidol Ysgolion Ynys Môn a Chwmni Cynnal Cyf.".

Roedd y cais yn nodi'r busnes yr oedd yr Aelodau'n dymuno cymryd rhan ynddo, a'r math o ganiatâd arbennig a geisiwyd, a'r sail statudol dros wneud y cais.

Ar ôl derbyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, daeth y Panel i'r casgliad a ganlyn:-

1. Bod y diddordeb gyfystyr â diddordeb personol yn unol â'r diffiniad yn y Côd Ymddygiad/Canllawiau'r Ombwdsmon.

2. Mae'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu yn unol â'r ystyr yn y Côd Ymddygiad.
3. Nid oes unrhyw "ganiatâd arbennig" yn y Côd Ymddygiad a fyddai'n caniatáu i'r Ymgeiswyr gymryd rhan.
4. Byddai'r Ymgeiswyr yn cael eu hatal rhag cymryd rhan/gwneud penderfyniadau a ni fyddent yn gallu cyflawni un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith.
5. O'r herwydd, ni fyddai modd i'r Pwyllgor Gwaith sicrhau cworwm oni roddir caniatâd arbennig.
6. Rhoddwyd caniatâd arbennig i bob un o'r saith ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD rhoi Caniatâd Arbennig i bob un o'r saith ymgeisydd yn unol â'r geiriad a ganlyn, i:-**

- **ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor am y mater, nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd Cwmni Cynnal Cyf., ar yr amod y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau o'r fath;**
- **siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ar y mater (ar gael os oes gan Aelod anallu);**
- **pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;**
- **ymgymryd â rôl lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol;**
- **daw'r caniatâd a roddwyd fel hyn i ben ar 9 Mai 2022.**

**Nodwyd bod rhaid i'r Aelodau y rhoddwyd caniatâd arbennig iddynt ddatgan eu diddordebau personol sy'n rhagfarnu, a'r ffaith eu bod wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau, ym mhob cyfarfod perthnasol pan fyddant yn trafod a/neu'n pleidleisio mewn cyfarfodydd.**

**Rhoddir y caniatâd arbennig o dan Baragraff 81(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar y sail a ganlyn:-**

- **"Os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol, neu hanner aelodau bwyllgor yr awdurdod y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo, ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw".**

- **"Os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn gymwys".**

**Gweithredoedd:**

**Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn:-**

- **Ysgrifennu at y saith aelod o Gyngor Sir Ynys Môn a enwir yn y cais, gan gadarnhau penderfyniad y Panel i roi caniatâd arbennig ar y cyd; sydd yn caniatáu i bob aelod ysgrifennu, siarad a phleidleisio ar bob mater yn gysylltiedig â'r busnes hwnnw.**
- **Rhoi gwybod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod caniatad arbennig wedi'i roi.**
- **Adrodd i'r Pwyllgor Safonau ynghylch y defnydd a wnaed o'r caniatad arbennig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25 am

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Pwyllgor:** | **15 Rhagfyr, 2021** |
| **Teilt:** | **Adroddiadau Blynyddol Aelodau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I adrodd ar y sefyllfa bresennol ar adroddiadau 2020/21** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cyflwyniad

Rwyf yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar baratoadau ar gyfer adroddiadau blynyddol gan Aelodau. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am ddiweddariad.

Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol( Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

Mae modd gweld yr adroddiadau diweddraf a gyhoeddwyd drwy glicio ar y linc yma: https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

Mae 14 Aelod wedi paratoi adroddiad ar eu gwaith yn ystod 2020/21.

O ran y trefniadau i'r dyfodol (adroddiadau 2021/22) fe fydd Arweinyddion Grŵp yn cael eu briffio maes o law a chais i aelodau gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2022. Fe gyhoeddir y wybodaeth yn ddiweddarach ar wefan y Cyngor.

## 2.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**22/11/21**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN;** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIADAU

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 mewn perthynas â Chynghorwyr Sir wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1 mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, mewn perthynas â Chynghorwyr Sir wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

2.4 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 2, mewn perthynas â Chynghorwyr Tref a Chymuned wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.5 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 1 2021-22 at aelodau’r Pwyllgor Safonau ar 6 Gorffennaf 2021. Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 2 2021-22 at aelodau’r Pwyllgor Safonau ar 24 Tachwedd 2021.

2.6 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 1 a 2 (**Atodiadau 1 i 4**) yn cael eu dosbarthu i Gynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor hwn ar ôl y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Safonau fel rhan o’r Newyddlenni.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau’r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1-4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro’r sefyllfa.

3.2 Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn dosbarthu **Atodiadau 1-4** i’r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor yn y Newyddlenni.

# ATODIAD / ENCLOSURE 1

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH**
**CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2021) – 2021/2022 – Quarter 1 (April – June 2021)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT** | | | | |

# ATODIAD / ENCLOSURE 2

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH**
**CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING**
**TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill - Mehefin 2021) – 2021/2022 – Quarter 1 (April – June 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023361<br>(ii) 202100526 | 06.05.2021 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) 023365<br>(ii) 202100784 | 12.05.2021 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) 023372<br>(ii) 202100836 | 14.05.2021 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint |
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Clerc / Clerk | (i) 023409<br>(ii) 202101226 | 18.06.2021 | Ombwdsmon yn ystyried y gŵyn /<br>Ombudsman considering the complaint |

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2021) – 2021/2022 – Quarter 2 (July – September 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r Cyhoedd/ Member of the Public | (i) 023362<br>(ii) 202103343 | 24.08.2021 | Ombwdsmon yn cysidro'r mater. / Ombudsman considering the complaint |

# ATODIAD / ENCLOSURE 4

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi 2021) – 2021/2022 – Quarter 2 (July - September 2021)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | Clerc / Clerk | (i) 023409<br>(ii) 202101226 | 18.06.2021 | 20.07.21<br>Ombwdsmon dim am ymchwilio / Ombudsman not investigating |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor | Cynghorydd Tref / Town Councillor | (i) 023643<br>(ii) 202103868 | 06.09.2021 | Ombwdsmon yn ystyried y gŵyn / Ombudsman considering the complaint |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yn hyn (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diweddaf y Pwyllgor ar 16 Mehefin 2021)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chôd ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r côd ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1**.

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/003/2020-021/CT– Y Cynghorydd David Poole – 28 Mehefin 2021

### 2.2 Apeliadau a benderfynwyd

APW-002-2021-022-AT: Y Cynghorydd R Mainon – 2 Tachwedd 2021

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos – Mehefin 2021 – Tachwedd 2021

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Cynghorydd David Poole<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br><br>APW/003/2020-021/CT | Honiad bod y Cynghorydd David Poole wedi torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili pan dorrodd baragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1) a 14(1)(a) Côd Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Roedd y Cynghorydd, yn ystod yr holl amseroedd perthnasol, yn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd wedi bod yn Arweinydd ers mis Mai 2017, a daeth yn Gynghorydd ym mis Mai 2004.<br><br>(i) Defnyddio ei safle i sicrhau mantais trwy benderfynu prynu cyfranddaliadau mewn cwmni, IQE plc, ar sail gwybodaeth gyfrinachol a dderbyniodd yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd mewn cyfarfod ar 8 Hydref 2018 (honiad o dorri paragraff 7 (a) y Côd) a thrwy hynny ddwyn anfri ar yr Awdurdod a'i swydd fel aelod (honiad o dorri paragraff 6 (1)(a) y Côd) – **(Honiad 1)**;<br><br>(ii) Methu â datgelu diddordeb personol a/neu adael cyfarfod ar 18 Chwefror 2019 pan oedd mater yr oedd ganddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo yn cael ei drafod, sef trafodion ariannol gyda'r un | Mewn perthynas â **Honiad 1**, penderfynodd PDC:<br>- Bod gan y Cynghorydd fynediad at wybodaeth gyfrinachol y cyfeiriwyd ati yn y cyfarfod ar 8 Hydref 2018. Er iddo ddatgan yn wreiddiol nad oedd yn gallu cofio a oedd ganddo fynediad, roedd yn derbyn y byddai ganddo fynediad pan gafodd ei gyfweld fel rhan o ymchwiliad yr Ombwdsmon, pan fu iddo dderbyn y byddai ganddo fynediad i'r wybodaeth "heb amheuaeth". Fodd bynnag, roedd yn gwadu bod unrhyw beth yn y wybodaeth honno wedi achosi iddo brynu'r cyfranddaliadau;<br>- Datganwyd mai cymhelliad y Cynghorydd dros brynu'r cyfranddaliadau oedd dangos 'pleidlais o hyder' yn y cynllun adfywio a rhan IQE ynddo. Dyna'r rheswm a roddwyd yn y cyfweliad, er iddo dderbyn hefyd ei fod wedi gobeithio elwa'n ariannol. Dyma'r rheswm a ailadroddwyd yn fwy diweddar yn ei e-bost ar 4 Mai 2021;<br>- Nododd y Tribiwnlys brofiad yr Ymatebydd a chafodd ei daro'n arbennig gan pa mor agos oedd dyddiad y cyfarfod a dyddiad prynu'r cyfranddaliadau, sef 8 a 22 Hydref yn y drefn honno. Roedd y neges syml yn y llythyr ynghylch gwerth ychwanegol gros (GVA) yn eglur; y byddai pris cyfranddaliadau IQE yn debygol o godi oherwydd iddo wneud elw yn gynt na'r | **Honiad 1**<br><br>**Paragraffau 6 (1)(a) a 7 (a);**<br>*Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y ffeithiau yn 'awgrymu' bod y ddau baragraff yn y Côd wedi cael eu torri. Roedd yr Ombwdsmon yn credu bod natur y wybodaeth gyfrinachol yr oedd ganddo fynediad iddi wedi ei arwain i brynu'r cyfranddaliadau yn IQE. Roedd y wybodaeth honno'n cynnwys arwyddion ynghylch gwerth tebygol y cyfranddaliadau ac roedd yn ystyried bod y penderfyniad i'w prynu ar ôl gweld y wybodaeth fasnachol sensitif yn dangos "crebwyll hynod o wael" ar ei ran.*<br><br>Roedd y Tribiwnlys yn ystyried bod ymddygiad yr Ymatebydd, trwy dorri paragraff 7 y Côd, wedi dwyn anfri ar ei Awdurdod ac, yn arbennig, ei swydd o fel arweinydd.<br><br>Cyfeiriodd Canllawiau'r Ombwdsmon at yr angen i aelodau fod yn ymwybodol o'r ffaith bod y paragraff yn y Côd yn berthnasol bob amser, ac nid yn unig pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau fel aelod. Ar ôl dod i'r canlyniad bod yr Ymatebydd wedi defnyddio ei rôl i geisio sicrhau mantais ariannol iddo'i hun pan brynodd y cyfranddaliadau yn IQE, gan ddibynnu ar y wybodaeth gyfrinachol y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 3.2.2, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad ei fod o wedi torri paragraff 7 (a).<br><br>**Honiad 2** |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | cwmni (honiad o dorri paragraffau 11 (1) a 14 (1) y Côd) – **(Honiad 2)** | disgwyl. Gallai'r Ymatebydd fod wedi prynu cyfranddaliadau ar unrhyw adeg cyn 22 Hydref i ddangos 'pleidlais o hyder' yn IQE, ond dewisodd wneud hynny dim ond ar ôl iddo dderbyn y rhagfynegiad hwnnw;<br>- Roedd y Tribiwnlys o'r farn hefyd ei bod werth nodi bod yr Ymatebydd, wrth gyfeirio ei hun, wedi cydnabod bod prynu'r cyfranddaliadau'n beth annoeth i'w wneud. Ond, roedd hynny oherwydd ei fod yn ystyried y byddai hynny'n creu gwrthdaro o safbwynt cynnal trafodaethau ynghylch IQE yn y dyfodol, yn hytrach nac oherwydd na ddylai fod wedi manteisio ar gynnwys gwybodaeth gyfrinachol yr oedd o wedi'i gweld.<br>- O gymryd yr holl faterion hyn i ystyriaeth, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad:<br>(a) ei bod yn debygol bod yr Ymatebydd wedi ceisio elwa ar y wybodaeth gyfrinachol yr oedd wedi ei derbyn mewn cysylltiad â'r cyfarfod ar 8 Hydref 2018 pan brynodd y cyfranddaliadau. | **Paragraff 11 (1);**<br>Cafodd y Tribiwnlys gryn drafferth gyda'r honiad hwn oherwydd geiriad paragraff 10 y Côd. Roedd paragraff 10 (2)(iv) yn diffinio diddordeb personol i gynnwys diddordeb a oedd yn ymwneud â chorff corfforaethol a oedd â lle busnes neu dir yn ardal yr awdurdod ac y mae gwerth y diddordeb ynddo yn fwy na £25,000. Nid oedd yr Ymatebydd yn bodloni pob un o'r profion cysylltiol hynny mewn perthynas â'r cyfranddaliadau yn IQE. Roedd paragraff 10 (2)(a)(ix)(bb) yn ymwneud â chwmnïau, cymdeithasau neu gyrff eraill "a chanddynt ddibenion elusennol". Nid oedd yn gallu gweld bod yr un o'r is-baragraffau hynny, neu unrhyw un arall ym mharagraff 10 (2)(a) y Côd, yn rhoi diffiniad clir o gyfranddaliad yr Ymatebydd fel diddordeb personol. Roedd paragraff 10 (2)(c) yn fwy generig ond roedd yn ymestyn y diffiniad o ddiddordebau personol i gynnwys rhywbeth lle gallai penderfyniad gan yr awdurdod fod wedi effeithio ar sefyllfa ariannol aelod (is-baragraff (i)). Roedd y Tribiwnlys o'r farn bod paragraff 10 (2)(c)(i) yn debygol o fod yn berthnasol i gyfranddaliad Ymatebydd gan y gallai unrhyw benderfyniad ynghylch IQE fod wedi effeithio ar ei sefyllfa ariannol fel cyfranddaliwr. Nid oedd y Tribiwnlys yn gweld perthnasedd paragraff 10 (2)(a)(viii) a godwyd gan yr Ombwdsmon. Y cwestiwn nesaf i fynd i'r afael ag o oedd a oedd yr Ymatebydd wedi mynychu cyfarfod lle cafodd "y busnes hwnnw ei ystyried". Roedd yr Ymatebydd o'r farn na chafodd y busnes |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | hwnnw ei ystyried; dim ond y 'broses' neu 'system' diwydrwydd dyladwy ar gyfer gwneud y buddsoddiad a ystyriwyd ar 18 Chwefror 2019 ac yn ei e-bost diweddar ar 4 Mai 2021. Fodd bynnag, daeth y Tribiwnlys i'r casgliad y byddai adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o fuddsoddiadau Adfywio Canol Dinasoedd yn amlwg wedi cynnwys archwiliad o'r grant o £38m i IQE. Yn yr ystyr ehangaf, roedd IQE wedi cael ei 'ystyried', naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn y cyfarfod.<br><br>**Paragraff 14 (1)(a);**<br>Roedd y Tribiwnlys o'r farn fod gan yr Ymatebydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu o dan baragraff 12 (1) y Côd. Roedd yn derbyn mai dyna oedd yr achos, a dyna oedd barn y Swyddog Monitro hefyd. Ni adawodd yr ystafell ar 18 Chwefror 2019 pan drafodwyd eitem 11 ac o ganlyniad bu iddo dorri paragraff 14 (1) y Côd.<br><br>Cosb:<br>- Mewn perthynas â'r achosion o dorri paragraffau 6 a 7 y Côd, atal dros dro am gyfnod o bum mis;<br>- Mewn perthynas â thorri paragraffau 11 ac 14 y Côd, atal dros dro am gyfnod o ddau fis, gyda'r ddwy gosb yn cydredeg.<br><br>Pwyntiau Dysgu<br><br>• Ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllawiau'r Ombwdsmon ar y Côd Ymddygiad. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Foesegol, efallai y byddai'r Pwyllgor |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | Safonau'n dymuno ystyried argymell unrhyw newidiadau i'r Canllawiau.<br>• Mater hyfforddiant i'w amlygu ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2022.<br>• Y Pwyllgor Safonau i atgoffa aelodau i ddiweddaru eu Cofrestri o Ddiddordebau, nid yn unig fel rhan o adolygiad blynyddol, ond pryd a phan fydd y diddordebau hynny'n newid. Y gofyn statudol yw cyn pen 28 diwrnod i newid o'r fath. |
| Y Cynghorydd Richard Mainon<br><br>Cyngor Sir Ddinbych<br><br>APW/002/2021/022/AT | Yn dilyn dadl rhwng un o etholwr y cynghorydd a'r achwynydd ym maes parcio'r siop leol, bu i'r cynghorydd (ar gais yr etholwr) gwyno wrth gyflogwr yr achwynydd am y digwyddiad. Dros gyfnod o rhyw 10 diwrnod (11 i 21 Rhagfyr), bu i'r cynghorydd:<br>• ymchwilio a sefydlu lleoliad gwaith yr achwynydd;<br>• ymweld â'r lle gwaith hwnnw a siarad â 3 gweithiwr arall am y digwyddiad;<br>• ymweld ddwywaith â'r siop leol lle digwyddodd y digwyddiad i ganfod a oedd lluniau teledu cylch cyfyng o'r digwyddiad;<br>• gwneud cwyn i gyflogwr yr achwynydd am y digwyddiad ar ran ei etholwr.<br><br>Hysbyswyd yr achwynydd am y gŵyn gan ei chyflogwr rhyw dair | Apeliodd y Cynghorydd ar y sail:<br>• nad oedd o wedi bwlio nac aflonyddu'r achwynydd;<br>• nad oedd wedi dwyn anfri ar y Cyngor;<br>• nad oedd wedi cymryd mantais o'i safle i greu anfantais i'r achwynydd;<br>• bod y gosb yn amhriodol, yn ddiangen ac yn ormodol.<br><br>Caniatawyd i'r apêl fynd yn ei flaen ar sail gyfyngedig:<br><br>• nad oedd penderfyniad y Pwyllgor Safonau wedi gwahanu bwlio ac aflonyddu; nid yr un peth yw'r ddau. Nid oedd y penderfyniad wedi nodi sut y daethpwyd i'r canlyniad bod patrwm o ymddygiad neu ymddygiad mynych a oedd yn gyfystyr ag aflonyddu; | Canfu'r Tribiwnlys bod y cynghorydd wedi ymddwyn yn fynych trwy gyfrwng cyfres o weithredoedd unigol a gwahanol dros nifer o ddiwrnodau. Er bod y digwyddiadau hyn yn wahanol, a'u bod wedi cael eu hystyried a'u gweithredu ar wahân, roeddent yn ffurfio cyfres o ddigwyddiadau wrth i'r cynghorydd barhau i fynd ar drywydd y gŵyn yn erbyn yr achwynydd ar ran ei etholwr. Yn y cyswllt hwnnw, roedd yn gyfrifol am batrwm o ymddygiad a gafodd ei ddisgrifio'n gywir fel ymddygiad mynych.<br><br>Bu i'r Tribiwnlys ystyried a oedd yr ymddygiad mynych gyfystyr ag aflonyddu, gan edrych ar yr ymddygiad yn wrthrychol, ond hefyd gan ystyried safbwyntiau'r achwynydd, y cynghorydd a thystiolaeth arall oedd ar gael.<br><br>Er nad oedd y cynghorydd yn bwriadu aflonyddu ar yr achwynydd, roedd o wedi ymweld â'r gweithle ac wedi mynd ar drywydd y gŵyn. Roedd y gŵyn yn ffeithiol |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | wythnos yn ddiweddarach. Penderfynodd y cyflogwr mai mater preifat ydoedd a ni chymerodd unrhyw gamau pellach.<br><br>Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod y cynghorydd:<br>• wedi rhoi'r argraff ei fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd – para. 2(d) y Côd;<br>• wedi torri para. 4(c) oherwydd bod ei weithredoedd wrth ymweld â gweithle'r achwynydd gyfystyr â bwlio ac aflonyddu;<br>• wedi torri para. 6(1)(a) trwy roi'r argraff ei fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd a bod posibilrwydd ei fod wedi niweidio enw da'r Cyngor;<br>• wedi torri para. 7(a) wrth ddefnyddio ei safle i greu anfantais i'r achwynydd yng ngolwg ei chyflogwr, trwy weithredu o blaid yr etholwr mewn mater preifat ac am roi'r argraff ei fod yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.<br><br>Bu i'r Pwyllgor Safonau atal y cynghorydd dros dro am gyfnod o 2 fis. | • gellir dadlau yn erbyn casgliad y Pwyllgor Safonau bod ymddygiad y cynghorydd gyfystyr ag aflonyddu;<br>• yn erbyn y gosb.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys Apêl, yn unfrydol, bod y cynghorydd wedi aflonyddu ar yr achwynydd trwy ei weithredoedd yn ystod y cyfnod rhwng 11 a 21 Rhagfyr ac, felly, ei fod wedi torri para. 4(c) y Côd.<br><br>Cadarnhawyd penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ar apêl i Banel Dyfarnu Cymru a chafodd y cynghorydd ei atal am ddau fis. | anghywir (trwy awgrymu ei fod wedi gweld lluniau camerâu cylch cyfyng a bod sain wedi cael ei recordio - nid oedd y naill beth na'r llall yn gywir). Roedd hyn yn awgrymu bod y cynghorydd wedi ochri â'r etholwr o'r dechrau.<br><br>Roedd y cynghorydd wedi gweithredu mewn ffordd eithafol ac wedi parhau i wneud hynny pan nad oedd hawl ganddo. Roedd wedi mynd ar drywydd y gŵyn, er gwaethaf popeth ac yn fynych, pan ddylai wybod i beidio â gwneud hynny, gan ddechrau gyda'i weithred o fynd i le gwaith yr achwynydd, a oedd yn amlwg yn afresymol.<br><br>Roedd gan yr achwynydd hawl i ystyried ei bod wedi cael ei haflonyddu er nad dyna oedd bwriad y cynghorydd. Roedd ei weithredoedd gyfystyr â bwlio ac aflonyddu. Roedd ei ymddygiad yn eithafol, yn ddigyfiawnhad ac yn fynych a dylai wybod hynny a dylai wybod y byddai'n creu gofid neu'n cythruddo'r achwynydd. Byddai person rhesymol a oedd yn meddu ar yr un wybodaeth â'r cynghorydd yn meddwl fod hynny gyfystyr ag aflonyddu.<br><br>Cadarnhawyd cosb y Pwyllgor Safonau. Roedd y canlynol wedi cael eu torri – 4(c) (bwlio), 6(1)(a) (dwyn anfri) a 7(a) (defnyddio safle i greu anfantais). Er bod yr euogrwydd yn ddifeddwl yn hytrach na'n fwriadol, roedd yn eithaf uchel. Er nad oedd yn bwriadu bwlio ac aflonyddu, roedd ei weithredoedd wedi achosi gofid, embaras a phryder. Dylai'r cynghorydd wybod bod mynd ar drywydd y |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | | mater fel hyn yn anghywir. Roedd y niwed a achoswyd i'r achwynydd, yn ei bywyd preifat a'i bywyd gwaith, ac i'r Cyngor yn sylweddol. Roeddent yn achosion difrifol o dorri'r Côd ac nid oedd cerydd yn briodol.<br><br>Tra ei fod yn weddol amhrofiadol fel cynghorydd, roedd wedi defnyddio ei deitl portffolio gyda'r Cyngor i bwysleisio maint ei awdurdod.<br><br>Yn arferol, gallai achosion o fwlio ac aflonyddu arwain at atal aelod am dri mis. Cosb y Pwyllgor Safonau o ddau fis oedd y gosb briodol leiaf o dan yr amgylchiadau ac ni fyddai'r Tribiwnlys yn ymyrryd â hynny.<br><br><u>Pwyntiau Dysgu</u><br><br>• Bod aflonyddu yn gofyn am batrwm o ymddygiad a gweithredoedd mynych dros gyfnod o amser;<br>• Y gallai'r achwynydd brofi dicter a gofid yn ddiweddarach ac yn dilyn yr ymddygiad mynych. Yn yr achos hwn, nid oedd yr achwynydd yn ymwybodol o'r digwyddiadau nac ymddygiad y cynghorydd nes i'r gŵyn gael ei dwyn i'w sylw rhyw dair wythnos ar ôl iddi gael ei gwneud. |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers yr adroddiad ysgrifenedig diwethaf i'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol dan y cod ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r cod ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 12(2) y cod.

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Cod o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

## 2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn

o Gyngor ac Arweiniad. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glercod cynghorau tref a chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6ed Mawrth 2017.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

3.1 Gwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 12 Tachwedd 2021

3.1.1 Cynhaliwyd gwrandawiad o'r Panel Caniatâd Arbennig yn rhithiol ar 12 Tachwedd 2021 i ystyried y cais gan 7 aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r Strategaeth Ddigidol ar gyfer Ysgolion Ynys Môn a Chwmni Cynnal Cyf. Ystyriwyd y mater fel caniatâd bloc.

3.1.2 Ynghlwm yn **Atodiad 1** mae'r cofnodion drafft o'r Panel Caniatâd Arbennig.

3.1.3 Penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig i'r holl Gynghorwyr a enwyd a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig ar y telerau canlynol:

- ysgrifennu at swyddogion [a / neu'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor] am y mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor am y mater [~~ym mhresenoldeb dau berson arall~~] nad ydynt yn Ymddiriedolwyr nac yn Aelodau o Fwrdd Cwmni Cynnal, ar yr amod y cymerir nodyn o unrhyw drafodaethau o'r fath;
- siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth / pleidlais ar y mater (ar gael os oes gan yr Aelod anabledd);
- pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;
- cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol ac ati.
- bydd y caniatâd a roddwyd yn dod i ben ar 9fed Mai 2022

3.1.4 Rhoddwyd y caniatâd arbennig ar sail seiliau statudol (a) a (b).

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd a'r sail a'r amgylchiadau dros eu caniatáu.

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Gill Murgatroyd |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod rhithwir o'r Panel Caniatâd Arbennig.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyriwyd a **PHENDERFYNWYD o dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12A, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno, a'r Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**3. YSTYRIED CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod saith Aelod o'r Pwyllgor Gwaith wedi cyflwyno cais ar y cyd i oresgyn diddordeb personol mewn perthynas â "Strategaeth Ddigidol Ysgolion Ynys Môn a Chwmni Cynnal Cyf.".

Roedd y cais yn nodi'r busnes yr oedd yr Aelodau'n dymuno cymryd rhan ynddo, a'r math o ganiatâd arbennig a geisiwyd, a'r sail statudol dros wneud y cais.

Ar ôl derbyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, daeth y Panel i'r casgliad a ganlyn:-

1. Bod y diddordeb gyfystyr â diddordeb personol yn unol â'r diffiniad yn y Côd Ymddygiad/Canllawiau'r Ombwdsmon.



DRAFT

2. Mae'r diddordeb yn un sy'n rhagfarnu yn unol â'r ystyr yn y Côd Ymddygiad.
3. Nid oes unrhyw "ganiatâd arbennig" yn y Côd Ymddygiad a fyddai'n caniatáu i'r Ymgeiswyr gymryd rhan.
4. Byddai'r Ymgeiswyr yn cael eu hatal rhag cymryd rhan/gwneud penderfyniadau a ni fyddent yn gallu cyflawni un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith.
5. O'r herwydd, ni fyddai modd i'r Pwyllgor Gwaith sicrhau cworwm oni roddir caniatâd arbennig.
6. Rhoddwyd caniatâd arbennig i bob un o'r saith ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD rhoi Caniatâd Arbennig i bob un o'r saith ymgeisydd yn unol â'r geiriad a ganlyn, i:-**

- **ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor am y mater, nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd Cwmni Cynnal Cyf., ar yr amod y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau o'r fath;**
- **siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ar y mater (ar gael os oes gan Aelod anallu);**
- **pleidleisio mewn cyfarfodydd o'r fath;**
- **ymgymryd â rôl lawn mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol;**
- **daw'r caniatâd a roddwyd fel hyn i ben ar 9 Mai 2022.**

**Nodwyd bod rhaid i'r Aelodau y rhoddwyd caniatâd arbennig iddynt ddatgan eu diddordebau personol sy'n rhagfarnu, a'r ffaith eu bod wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau, ym mhob cyfarfod perthnasol pan fyddant yn trafod a/neu'n pleidleisio mewn cyfarfodydd.**

**Rhoddir y caniatâd arbennig o dan Baragraff 81(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar y sail a ganlyn:-**

- **"Os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol, neu hanner aelodau bwyllgor yr awdurdod y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo, ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw".**

- **"Os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo ddiddordeb sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn gymwys".**

**Gweithredoedd:**

**Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn:-**

- **Ysgrifennu at y saith aelod o Gyngor Sir Ynys Môn a enwir yn y cais, gan gadarnhau penderfyniad y Panel i roi caniatâd arbennig ar y cyd; sydd yn caniatáu i bob aelod ysgrifennu, siarad a phleidleisio ar bob mater yn gysylltiedig â’r busnes hwnnw.**
- **Rhoi gwybod i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod caniatad arbennig wedi’i roi.**
- **Adrodd i’r Pwyllgor Safonau ynghylch y defnydd a wnaed o’r caniatad arbennig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25 am

**MR JOHN R JONES**
**CADEIRYDD**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch Newyddlen y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn y cyflwyniadau gan y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020, penderfynwyd y dylid adrodd ar waith a gweithgareddau diweddar y Pwyllgor i'r Cynghorau Tref a Chymuned, ac aelodau'r Cyngor hwn, ar ffurf Newyddlenni (yn hytrach na gohebiaeth hirfaith). Mae'r Newyddlen yn grynodeb yn unig a cheir mwy o wybodaeth drwy'r dolenni.

1.2 Anfonwyd y Newyddlen i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 4 Mawrth 2021. Yn yr ohebiaeth honno, gofynnwyd i'r Clercod gysylltu efo'r Cyngor gyda chopi o Raglen / Cofnodion fyddai'n cadarnhau fod y Newyddlen wedi ei thrafod. Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Safonau ar 16 Mehefin 2020.

1.3 Ar 21 Gorffennaf 2021, ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau at bob Cyngor Tref a Chymuned gyda chopi o'r adroddiad a drafodwyd gan obeithio y byddai'r adroddiad yn darparu manylion am: (a) arfer da a (b) meysydd sydd angen sylw pellach.

1.4 Gofynnwyd i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned dynnu sylw eu haelodau at gynnwys yr adroddiad a'i gynnwys fel eitem aryr agenda yn ystod eu cyfarfod nesaf ac anfon copi o gofnodion y cyfarfod hwnnw i'r Pwyllgor Safonau.

## 2. YMATEBION A DDERBYNIWYD I'R CAIS

2.1 Mae copi o'r ebost anfonwyd at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar 21 Gorffennaf 2021 a'r Newyddlen atodol ynghlwm yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

2.2 Gweler yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn. Dim ond pump o'r deugain Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi ymateb i'r cais.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau:

3.1.1 nodi'r wybodaeth mewn perthynas â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn **Atodiad 2**;

3.1.2 penderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r Cynghorau Tref/Cymuned hynny nad ydynt wedi ymateb.

**ATODIAD 1**

**Pwnc/Subject:** Adolygiadau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Tref a Chymuned / Standards Committee's Reviews in the Town and Community Councils

Annwyl Glercod

**Adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar Gofrestrau Diddordebau Cynghorau Tref a Chymuned - Paratowyd yr adroddiad ym Mehefin 2021**

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-2021, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o gofrestrau o ddiddordebau personol aelodau mewn sampl o'r cynghorau tref a chymuned, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad. Cynhaliwyd yr adolygiadau ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2021.

Hoffai'r Pwyllgor Safonau fynegi ei ddiolch diffuant i'r clercod, ynghyd ag aelodau'r pum Cyngor Tref a Chymuned a adolygwyd, am eu hamser a'u cydweithrediad. O safbwynt y Pwyllgor, ystyriwyd y bu'r adolygiadau'n ymarfer buddiol; mynegodd y Clercod hefyd y bu'r drafodaeth o fudd iddynt.

Gweler ynghlwm gopi o Adroddiad a baratowyd gan y Pwyllgor Safonau er mwyn darparu trosolwg cyffredinol o ganfyddiadau'r adolygiad diweddar. Nid oes unrhyw gyngor unigol yn cael ei adnabod yn yr Adroddiad. Mae'r Pwyllgor Safonau'n gobeithio y bydd cynnwys yr Adroddiad yn cynorthwyo cynghorau tref a chymuned yn gyffredinol trwy ddarparu manylion o ran (a) arferion da, ynghyd â (b) meysydd sy'n gofyn am sylw pellach. Hyderwn y gall fod yn ganllaw defnyddiol i'r hyn sydd angen ei wneud at y dyfodol.

**Gofynnir i Glercod ddod â chynnwys yr adroddiad hwn i sylw eu holl aelodau trwy ei gynnwys fel eitem ar raglen cyfarfod nesaf eu cyngor, ac i anfon copi o gofnodion y cyfarfod hwnnw at y Pwyllgor Safonau trwy e-bost at mwjcs@ynysmon.gov.uk**

Pe bai gan aelodau neu Glercod unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad, cysylltwch â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn (Lynn Ball, 01248 752586 / lbxcs@ynysmon.gov.uk).

Yn gywir

John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau

---

Dear Clerks

**The Isle of Anglesey County Council's Standards Committee Report on the Town and Community Councils Registers of Members' Interests - Report prepared June 2021**

As part of its work programme for 2020-2021, the Standards Committee decided to conduct a review of the registers of members' personal interests in a sample of the town

and community councils, to ensure compliance with the code of conduct. The reviews took place in March, April and May 2021.

The Standards Committee would like to express their sincere thanks to the clerks, and members, from the five Town and Community Councils that were reviewed for their time and co-operation. From the Committee's perspective, the reviews are deemed to have been a productive exercise; Clerks have also expressed they found the discussion to have been beneficial.

Please find attached a copy of a Report prepared by the Standards Committee so as to provide a general overview of the findings made during the recent review. No individual council is identified in the Report. The Standards Committee hopes that the contents of the Report will assist town and community councils collectively by providing details of (a) good practice and (b) areas where further attention is required. We hope it can be a useful guide on what needs to be done for the future.

**Clerks are asked to bring the contents of this report to the attention of all their members by including it as an item on their next available council agenda and to forward a copy of the minutes of that meeting to the Standards Committee by emailing mwjcs@ynysmon.gov.uk**

Should members or Clerks have any queries in relation to this report, please contact the Monitoring Officer at Isle of Anglesey County Council ( Lynn Ball, 01248 752586 / lbxcs@ynysmon.gov.uk ).

Yours faithfully

John R Jones
Chair – Standards Committee

CC-022335-675186

**Ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned / Town and Community Councils Responses**

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting** | **Copi Rhaglen / Cofnodion / Copy Agenda / Minutes** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymdeithas **Aberffraw** Community Council | | |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | 27/7/2021 | 04 LLAWN AMLWCH 27-7-2021.pdf |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | | |
| 4 | Cyngor Cymdeithas **Bodedern** Community Council | | |
| 5 | Cyngor Cymdeithas **Bodffordd** Community Council | | |
| 6 | Cyngor Cymdeithas **Bodorgan** Community Council | | |
| 7 | Cyngor Cymdeithas **Bryngwran** Community Council | | |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | | |
| 9 | Cyngor Bro **Cwm Cadnant** Community Council | | |
| 10 | Cyngor Bro **Cylch y Garn** Community Council | | |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | 21/9/2021 | 080 Cofnodion Cyngor Llawn 21-9- |
| 12 | Cyngor Cymdeithas **Llanddaniel-Fab** Community Council | | |
| 13 | Cyngor Cymdeithas **Llanddona** Community Council | | |
| 14 | Cyngor Cymdeithas **Llanddyfnan** Community Council | | |
| 15 | Cyngor Cymdeithas **Llaneilian** Community Council | | |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | | |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad** Community Council | | |
| 18 | Cyngor Cymdeithas **Llanfachraeth** Community Council | | |
| 19 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaelog** Community Council | 22/9/2021 | Minutes 22 September 2021.pdf |
| 20 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaethlu** Community Council | | |

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting** | **Copi Rhaglen / Cofnodion / Copy Agenda / Minutes** |
|---|---|---|---|
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | | |
| 22 | Cyngor Cymdeithas **Llanfair yn Neubwll** Community Council | 21/9/2021 | 21 Sept 2021 MLNB.pdf |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | | |
| 24 | Cyngor Cymdeithas **Llanfihangelesceifiog** Community Council | | |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | | |
| 26 | Cyngor Cymdeithas **Llangoed a Phenmon / Llangoed and Penmon** Community Council | | |
| 27 | Cyngor Cymdeithas **Llangristiolus** Community Council | | |
| 28 | Cyngor Cymdeithas **Llanidan** Community Council | | |
| 29 | Cyngor Cymdeithas **Mechell** Community Council | | |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | | |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star / Penmynydd and Star** Community Council | | |
| 32 | Cyngor Cymdeithas **Pentraeth** Community Council | | |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy / Menai Bridge** Town Council | | |
| 34 | Cyngor Cymdeithas **Rhoscolyn** Community Council | | |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | | |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | | |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | 28/9/2021 | 28 September 2021 MTB.pdf |
| 38 | Cyngor Cymdeithas **Tref Alaw** Community Council | | |
| 39 | Cyngor Bro **Trewalchmai** Community Council | | |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | | |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15 Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i'r fframwaith moesegol statudol a gyflwynwyd gan Ran 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn cyflwyno darpariaethau newydd fel rhan o ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ac mae'n sefydlu dyletswyddau a gofynion llywodraethu newydd.

1.2 Daw gwahanol ddarpariaethau'r Ddeddf i rym ar wahanol adegau yn ystod 2021/22 a 2022/23.

1.3 Mae Rhan 4 y Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar Arweinwyr grwpiau gwleidyddol a disgwylir iddynt ddod i rym o 5 Mai 2022.

## 2. MATERION

2.1 Mae Rhan 4 adran 67 y ddeddf newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Arweinyddion grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel aelodau eu grŵp; ac i gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau.

2.2 Mae Rhan 4 adran 63 y Ddeddf Newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau gynhyrchu adroddiad blynyddol, cyn gynted ac y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol pob blwyddyn. Bydd yr adroddiad hwnnw yn

disgrifio sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

2.2.1 beth a wnaethpwyd i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd i'r Pwyllgor Safonau;

2.2.2 asesiad y Pwyllgor Safonau o i ba raddau mae Arweinyddion grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'u dyletswydd eu hunain o dan Ran 4, a

2.2.3 cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hynny.

## 3. SEFYLLFA GYFREDOL

3.1 Mae trefniant ar waith i adrodd ar ymddygiad Aelodau ond nid ar y disgwyliadau newydd ar gyfer Arweinyddion Grwpiau.

3.2 Mae'r Pwyllgor Safonau'n cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor ar gyfer ei Gyfarfod Blynyddol. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ym mis Mai 2021.

## 4. ARGYMHELLION/ARGYMHELLIAD

Er mwyn cryfhau'r ddyletswydd newydd ar Arweinyddion Grwpiau, argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i fframwaith monitro. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r Pwyllgor Safonau weld Canllawiau terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ynghylch arfer eu dyletswyddau newydd. Canllawiau drafft sydd ar gael ar hyn o bryd ac ni chyhoeddwyd dyddiad ar gyfer ymgynghori arno.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **15fed Rhagfyr 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Fframwaith Safonau Moesegol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ystyried adroddiad ar y Fframwaith Safonau Moesegol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT::** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

**CEFNDIR**

1. Yn gynnar yn 2021 comisiynwyd Mr Richard Penn gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol; a sefydlwyd yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cynnwys Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor a rôl y Swyddog Monitro, Pwyllgor Safonau, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) a Phanel Dyfarnu Cymru. Ar y cyd, dyma'r "Fframwaith Safonau Moesegol".

2. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 14 Hydref 2021, ac fe'i rhannwyd yn anffurfiol ag Aelodau'r Pwyllgor Safonau ychydig ddyddiau wedi'r dyddiad cyhoeddi ynghyd â Chrynodeb o'r pwyntiau o ddiddordeb uniongyrchol i'r Pwyllgor.

3. Bydd Aelodau'n gwybod bod y Fframwaith Safonau Moesegol wedi'i sefydlu i hyrwyddo ymddygiad moesegol o safon uchel gan Aelodau'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru wrth gynnal busnes y Cyngor neu gynrychioli'r awdurdod lleol; yn ogystal â mewn capasiti preifat, mewn rhai enghreifftiau cyfyngedig.

4. Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, a chynnal cyfweliadau ledled Cymru, prif bwyslais yr Adroddiad yw bod y Fframwaith presennol yn dal i fod yn addas i'r diben ond y gellid ei wella. Mae ymateb ffurfiol y Pwyllgor Safonau i'r Ymgynghoriad ynghlwm yn **Atodiad 1**.

5. Bydd angen gwaith ymgynghori technegol pellach a newidiadau deddfwriaethol posib i gyflawni rhai o'r argymhellion a amlinellwyd os cânt eu derbyn.

6. Mae'r Crynodeb o'r argymhellion, a'r argymhellion sydd o ddiddordeb uniongyrchol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau, fel a ganlyn:-

a) Bod y trothwy ar gyfer datgan unrhyw rodd, lletygarwch neu fuddiant materol yn cael ei nodi yn y Cod Ymddygiad ac na ddylai'r mater gael ei benderfynu'n lleol mwyach.

b) Na ddylai'r Cod Ymddygiad ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddatgelu eu cyfeiriad cartref yng Nghofrestr Buddiannau'r Cyngor.

c) Diwygio paragraff 4a) yn y Cod i gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

d) Ffurfioli achosion posib o dorri'r Cod yn sgil y defnydd helaeth a chynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol drwy ddiwygiadau priodol i'r Cod.

e) Diwygio paragraff 6(1) yn y Cod Ymddygiad fel bod Aelodau'n gorfod adrodd ar eu hymddygiad troseddol ei hunain ac nid dim ond ymddygiad pobl eraill.

f) Hyfforddiant gorfodol i holl Aelodau'r Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned. Argymhellir cyflawni hyn drwy gael Aelodau i ymrwymo i gwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol yn y Datganiad Derbyn Swydd y mae'n ofynnol i bob Aelod etholedig ei lofnodi o dan Orchymyn Etholiadau Lleol (Datganiad Derbyn Swydd) (Cymru) 2004 cyn y gall ddod yn Gynghorydd. Fodd bynnag mae'n bosib y bydd rhaid gwneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn newid Gorchymyn 2004.

g) Datrys mwy o gwynion yn lleol. Argymhellir ystyried / defnyddio'r weithdrefn Ddatrys Leol cyn cyfeirio'r gwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn er mwyn datrys materion a godir yn gyflym ac er mwyn caniatáu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion mwy cymhleth a difrifol.

h) Ymestyn pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i atgyfeirio cwynion yn ôl at Ddatrysiad Lleol.

i) Adolygu rôl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys eu rôl mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned:

1) Sefydlu fforymau Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion ac Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgorau Safonau;

2) Darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau ar ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad a sut i gynnal Gwrandawiadau;

3) Darparu pwerau ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Safonau er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor gael yr hyfforddiant angenrheidiol, a phwerau i'w gwneud hi'n ofynnol i Aelod ymddiheuro;

4) Gwneud mwy o ddefnydd o brosesau Datrys Lleol i helpu i ddelio â chwynion am Gynghorau Tref a Chymuned;

5) Gwneud y fframwaith safonau moesegol yn fwy hygyrch a'i hyrwyddo.

**ARGYMHELLION**

Nodi'r Adroddiad gyda'r disgwyliad y bydd rhaid ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith Safonau Moesegol pan a phryd y byddwn yn eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y byddant mewn grym ac yn weithredol erbyn etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ar 5ed Mai 2022.

.

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**DIRECTOR OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

CYNGOR SIR YNYS MON /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir / Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

DX: 701771 – LLANGEFNI

ffôn / tel: (01248) 75
ffacs / fax: (01248) 752132
E-Bost – E-mail: mwycs@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf – Our Ref. MY/MWJ/CC-022335-MY
Eich Cyf – Your Ref.

Mr Richard Penn
penn.richard@yahoo.com

2/07/2021

Annwyl Mr Penn

**Adolygiad o'r Fframwaith Moesegol**

Diolch am y cyfle i gwrdd â chi i drafod eich adolygiad o'r Fframwaith Moesegol yn ystod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 24 Mehefin 2021.

Fel Pwyllgor Safonau rydym yn croesawu eich adolygiad ac, fel rhan o'r gwaith i baratoi ar gyfer y Fforwm, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau i ystyried pa newidiadau / gwelliannau y gellid eu gwneud. Mae crynodeb isod o'r prif bwyntiau a godwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn. Gobeithiwn y byddwch yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth i chi lunio eich argymhellion i Lywodraeth Cymru:

1. <u>Trefniadau amgen:</u>
   Y posibilrwydd o gael trefn "cyffyrddiad ysgafn" ar gyfer cynghorau cymuned sydd â phraesept / cronfa wrth gefn / cyllideb islaw lefel benodol neu ryw fesur gwrthrychol arall.

   Neu fel arall, y posibilrwydd o greu is-bwyllgor asesu "sifft gyntaf" i benderfynu a yw cwynion yn deilwng o gael eu

Dear Mr Penn

**Review of the Ethical Framework**

Thank you for the opportunity of meeting to discuss your review of the Ethical Framework during the North Wales Standards Committee Forum on 24 June 2021.

As a Standards Committee, we welcome your review and, as part of the preparatory work for the Forum, we met as a Standards Committee to consider what changes / improvements might be made. Below is a summary of the key points made by the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee. We hope you will take these into consideration in formulating your recommendations to Welsh Government:

1. <u>Alternative arrangements:</u>
   The possibility of introducing a "light touch" regime for community councils with a precept / reserve / budget below a specified level, or some other objective measure.

   Alternatively, the possibility of creating a "first sift" assessment sub-committee to determine whether there is sufficient

hanfon ymlaen at yr Ombwdsmon.

2. Cyflwyno cwynion:
Paragraff 6(1)(c) o'r Cod. Mae'r geiriad presennol yn creu disgwyliad y bydd Swyddogion Monitro yn gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ar ran aelodau. Mae hyn yn creu gwrthdaro i'r Swyddog Monitro pe byddai angen cynghori'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach. Dylai fod yn eglur bod yr Ombwdsmon yn disgwyl i dystion uniongyrchol wneud cwynion, fel sy'n briodol.

3. Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau:
Sut fydd y ddyletswydd statudol newydd ar arweinyddion grwpiau mewn perthynas ag ymddygiad (fel y mae'n cael ei chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cael ei hadlewyrchu yn y Cod? Ac, yn fwy penodol, beth fydd y disgwyliadau ar Bwyllgorau Safonau o ran goruchwylio'r ddyletswydd hon a roddir ar arweinyddion grwpiau?

4. Cydraddoldeb:
Paragraff 4(a) o'r Cod. Efallai bod angen ystyried diweddaru'r diffiniad o Gydraddoldeb yng nghyd-destun y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd newydd, sydd wrth gwrs yn effeithio ar aelodau wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol yn eu hawdurdodau.

5. Hyfforddiant mandadol:

(a) Prif gynghorau:
A ddylai'r Cod ei hun gynnwys gofyniad fod aelodau yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar y Cod ac unrhyw elfennau penodol eraill? Mae'n amlwg fod awdurdodau lleol Cymru yn amrywio yn hyn o beth. Yma yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mae'n rhaid i aelodau gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o

merit for complaints to be forwarded to the Ombudsman.

2. Presenting complaints:
Paragraph 6(1)(c) of the Code. The current wording creates an expectation on Monitoring Officers that they will make complaints to the Ombudsman on behalf of members. This creates a conflict for the Monitoring Officer if there is a need to advise the Standards Committee at a later stage. There should be clarity that the Ombudsman requires first hand witnesses to make complaints, as appropriate.

3. Duty by Group Leaders:
How will the new statutory conduct duty on group leaders (as included in the Local Government and Elections (Wales) Act 2021) be reflected in the Code? More particularly, what will be the expectations on Standards Committees to oversee this duty by group leaders?

4. Equality:
Paragraph 4(a) of the Code. Perhaps there needs to be consideration given to updating the definition of Equality matters in light of the new socio-economic duty which of course impacts members when making strategic decisions in their authorities.

5. Mandatory training:

(a) Principal councils:
Should the Code itself include a requirement that members must complete mandatory training on the Code and any other specific elements? It is clear that local authorities in Wales differ in terms of this requirement. Here in Ynys Môn, Code of Conduct training is mandatory for members within the

fewn chwe mis iddynt gael eu hethol, a ni chaniateir i aelodau eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu oni bai eu bod wedi derbyn hyfforddiant penodol. Mae rhai awdurdodau'n gofyn am lai na hyn, ac mae eraill yn gofyn am fwy. A ddylai hyn fod yn gyson ym mhob awdurdod?

(b) Cynghorau cymuned:
O ystyried y ddyletswydd statudol newydd ar bob cyngor cymuned i gyhoeddi cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer aelodau a chlercod (sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), a oes cyfle i gynnwys unrhyw elfennau gorfodol mewn perthynas â hyfforddiant ar y Cod, ac, os felly beth fyddai'r elfennau gorfodol hynny? Beth am hyfforddiant gorfodol ar gyfer clercod, sy'n mynd tu hwn i'r Cod ei hun ac sy'n delio â materion llywodraethu ehangach? Ein profiad ni yw bod anghydfod ynghylch materion llywodraethu yn aml yn arwain at broblemau yn y berthynas rhwng clercod a rhai aelodau etholedig. A oes angen ehangu'r ymgynghoriad newydd ar gymhwyster ar gyfer clercod?

6. Cyfryngau cymdeithasol:
Wrth ystyried yr achosion y mae'r Ombwdsmon wedi adrodd arnynt yn ddiweddar mae'n holl bwysig bod y Cod yn rhoi sylw i Gyfryngau Cymdeithasol, er ein bod yn gwerthfawrogi mai'r llwyfan sy'n wahanol yn hytrach na'r disgwyliadau o ran ymddygiad.

7. Parch a bwlio:
Mae parch a bwlio yn ddau faes sylweddol o ran cwynion ac mae angen eglurder ynghylch pa faterion y dylai'r Ombwdsmon ystyried ymchwilio iddynt o dan y Cod Ymddygiad. Mae Calver, a phenderfyniadau dilynol, wedi codi mwy o gwestiynau nag y maent wedi eu hateb, yn arbennig mewn perthynas â'r

first six months of being elected, and members cannot sit on the Planning and Licensing Committee without having received specific training. Some authorities ask for less than this, and others require more. Should this be consistent in every authority?

(b) Community councils:
Given the new statutory duty on all community councils to publish an annual training plan for members and clerks (included in the Local Government and Elections (Wales) Act 2021), is it an opportunity to include any mandatory elements in relation to training on the Code, and, if so what would those mandatory elements be? What about mandatory training for clerks, which goes beyond the Code itself and deals with broader governance issues? It has been our experience that disputes about governance issues are frequently the trigger for relationship issues between clerks and some elected members. Should the new consultation on qualification for clerks be extended further?

6. Social media:
Considering the cases recently reported by the Ombudsman, it is imperative that the Code addresses the issue of Social Media although we appreciate that it is the platform which is different, rather than the behavioural expectations.

7. Respect and bullying:
Respect and bullying are two significant areas for complaints and clarity is required as to what matters should be considered for investigation by the Ombudsman under the Code of Conduct. Calver, and subsequent decisions, have raised more questions than they have answered, particularly

berthynas rhwng aelodau ac uwch swyddogion; ac yn arbennig Prif Weithredwyr yn derbyn cwynion cynyddol a gohebiaeth ormesol gan rai aelodau.

8. Datrysiad lleol:

(a) Prif gynghorau:
A ddylid cael protocol datrysiad lleol safonol ar gyfer prif gynghorau er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch i bob aelod etholedig?
Yn arwain o hyn, a ddylai fod yn ofynnol i aelodau etholedig ymrwymo i gydweithredu â phrotocol datrysiad lleol (fyddai'n cael ei weithredu'n lleol a'i fabwysiadu'n genedlaethol) o dan y Cod Ymddygiad ei hun?

Yn ein barn ni fel Pwyllgor Safonau, nid yw'r broses datrysiad lleol wedi bod yn effeithiol oherwydd ei bod yn broses wirfoddol.

(b) Cynghorau cymuned:
O safbwynt datrysiad lleol mewn cynghorau cymuned, mae'n ymddangos nad yw pob cyngor wedi mabwysiadu model Un Llais Cymru; mae rhai wedi creu eu dogfen eu hunain ac nid oes gan eraill brotocol o gwbwl. Unwaith eto, a ddylid datblygu protocol datrysiad lleol safonol ar gyfer y cynghorau cymuned?

O ran model Un Llais Cymru, rydym yn credu fod problemau efo'r model hwn oherwydd ei fod yn rhoi cyfrifoldeb ar y clerc a'r cadeirydd i weithredu'r datrysiad. O'n profiad ni fel Pwyllgor, yn amlach na pheidio, problem yn y berthynas rhwng y clerc a'r cadeirydd yw'r rheswm am weithredu'r protocol yn y lle cyntaf, ac o'r oherwydd nid yw Protocol Un Llais Cymru yn addas

with regard to the relationship between members and senior officers; and particularly Chief Executives receiving cumulative complaints and oppressive correspondence from certain members.

8. Local Resolution:

(a) Principal councils:
Should there be a standard local resolution protocol for principal councils in order to provide consistency and fairness to all elected members?
Following from this, should it be mandatory for elected members to undertake to co-operate with the local resolution protocol (locally applied and nationally adopted) under the Code of Conduct itself?

As a Standards Committee, it is our opinion that the local resolution protocol has proved ineffective because it is voluntary.

(b) Community councils:
In relation to local resolution at community councils, it seems that not all councils have adopted the One Voice Wales model; some have created their own document and others are without any protocol. Once again, should a standardised local resolution protocol be developed for community councils?

As far as the One Voice Wales model is concerned, we believe there are problems with this model as it focuses on the clerk and the chair as undertaking the resolution. However, from this committee's experiences, it is often difficulties in the relationship between the clerk and the chair that required local resolution in the first place; making the One Voice Wales Protocol unsuitable.

Beth yw rôl Pwyllgorau Safonau mewn datrysiad lleol ar lefel cynghorau cymuned, os oes rôl iddynt o gwbl? Mae unrhyw ddau aelod o'n Pwyllgor yn cynnal y broses datrysiad lleol, yn wirfoddol, gyda rhai cynghorau cymuned. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn hyfforddiant datrysiad lleol gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ac rydym ar fin derbyn yr hyfforddiant hwn unwaith eto.

A oes opsiynau eraill ar gyfer cyfryngwyr hyfforddedig e.e. Un Llais Cymru neu a ddylai hyn fod yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Safonau ar gais yr Ombwdsmon?

9. Clercod Cynghorau Cymuned:

(a) Rhwydwaith:
Mae ein Pwyllgor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o lywodraethiant mewn sampl o gynghorau cymuned ac yn adrodd ar y canfyddiadau a'r argymhellion cyffredinol. Yn ystod y broses hon, nododd nifer o glercod cynghorau cymuned y byddent yn gwerthfawrogi rhwydwaith o glercod i gefnogi ei gilydd gan y gall y swydd fod yn un unig. Efallai y byddai adolygu'r Fframwaith Moesegol yn gyfle i sefydlu trefniant o'r fath.

(b) Pecyn cymorth:
Fel y gwyddoch, mae bod yn glerc yn golygu llawer mwy na drafftio rhaglenni a chymryd cofnodion: maent yn swyddogion proffesiynol ac mae ganddynt gyfrifoldebau statudol. Byddai creu pecyn cymorth ar gyfer clercod (yn ychwanegol i'r syniad o greu rhwydwaith cymorth, fel y nodir ym mhwynt 9(a) uchod) yn cadarnhau'r gofynion ac yn cynnig cysondeb mewn safonau ymysg gwahanol gynghorau. Byddai hefyd yn ddefnyddiol os byddai unrhyw hyfforddiant a ddatblygir yn cyd-fynd

What if anything should be the role for Standards Committees in local resolution at community level? Any two members of our Committee undertake the local resolution process, on a voluntary basis, with some community councils. The Committee has received training on local resolution from the Centre for Public Scrutiny and we are about to undertake this training again.

Are there other options for trained mediators e.g. One Voice Wales or should this be a Standards Committee function at the request of the Ombudsman?

9. Community Council Clerks:

(a) Network:
Our Committee undertakes regular governance reviews at a sample of community councils, and reports generic findings and recommendations. During the course of this process, several community clerks noted that they would appreciate a network of clerks to support one another as the job can often be isolating. Reviewing the Ethical Framework might be an opportunity to set up such an arrangement.

(b) Toolbox:
As you know, being a clerk is much more than drafting agendas and taking minutes; they are professional officers with statutory responsibilities. Creating a toolbox for clerks (in addition to the idea of creating a support network, as noted in point 9(a) above) would confirm the requirements and offer consistency of standards between different councils. It would also be useful if any training developed would complement the contents of this toolbox.

efo cynnwys y pecyn cymorth hwn.

10. Swyddogion Monitro:

(a) Llawlyfr:
Mae angen diweddaru llawlyfr y Swyddogion Monitro.

(b) Hyfforddiant:
Ar hyn o bryd nid oes rhaglen hyfforddi genedlaethol yng Nghymru ar gyfer darpar Swyddogion Monitro. Nid yw'r hyfforddiant a ddarperir yn Lloegr yn briodol erbyn hyn oherwydd gwahaniaethau mewn deddfwriaeth. Credir ei bod yn bwysig sicrhau bod y cyngor a roddir i Bwyllgorau Safonau, aelodau etholedig, cynghorwyr cymuned ac ati yn gywir ac yn gyfredol a bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer cynllunio olyniaeth. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Moesegol yn gweithredu'n effeithiol.

Fel rhan o hyn, efallai y dylid ystyried cymhwyster ffurfiol ar gyfer cyfreithwyr llywodraethiant sy'n dymuno bod yn Swyddogion Monitro?

11. Pwerau Cosbi Panel Dyfarnu Cymru:
Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i ailystyried pwerau cosbi Panel Dyfarnu Cymru, a Phwyllgorau Safonau, pan ganfyddir fod y Cod wedi cael ei dorri. Efallai y byddai ystod ehangach o gosbau wedi eu teilwra yn ddefnyddiol. Er enghraifft, efallai mai'r gosb yw gwahardd dros dro am gyfnod penodol o amser, ond ni fyddai hynny'n cael ei weithredu os yw'r aelod yn cyflwyno ymddiheuriad ysgrifenedig o fewn cyfnod penodol o amser; neu, bod yr aelod yn cwblhau hyfforddiant penodol o fewn cyfnod penodol o amser. Byddai hyn wedyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng (A) "cosbi" achos o dorri'r Cod a (B) y ffaith nad oes gan etholwyr gynrychiolaeth tra bod eu

10. Monitoring Officers:

(a) Handbook:
The Monitoring Officer's handbook needs updating.

(b) Training:
There is currently no national programme of training in Wales for future Monitoring Officers. That provided in England is no longer appropriate owing to divergent legislation. It is felt that this is important to ensure the advice provided to Standards Committees, elected members, community councillors etc., is correct and current and that there is adequate succession planning. This is essential so as to ensure that the Ethical Framework operates effectively.

As part of this, perhaps consideration should be given to a formal qualification for governance solicitors wishing to be Monitoring Officers?

11. Adjudication Panel for Wales' Sanction Powers:
This review is an opportunity to review the sanction powers of the Adjudication Panel for Wales, and Standards Committee, when there is a finding of a breach of the Code. A wider range of tailored sanctions might be useful. For instance, perhaps the sanction is that of suspension for a specified period of time but this will not be implemented if the member provides a written apology within a specified time; or, that the member completes particular training within a specific time. This would then ensure a balance between (A) "punishing" a breach of the Code and (B) the fact that electors are without

haelod wedi cael ei wahardd dros dro.

representation when their member is suspended.

Gobeithir y bydd y llythyr hwn yn rhoi syniad i chi o’r materion sy’n bwysig i’r Pwyllgor Safonau yma ar Ynys Môn ac rydym yn edrych ymlaen at y broses ymgynghori a fydd yn dilyn eich adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru.

It is hoped that this letter will provide you with an indication of the matters that are important to the Standards Committee here in Ynys Môn and we look forward to the consultation process that will follow your initial report to Welsh Government.

Llawer o ddiolch

Many thanks

Yn gywir

Yours sincerely,

*John R Jones*

John R Jones
Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn
Chair – The Isle of Anglesey’s Standards Committee

Cymraeg

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English